Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr

# Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu

## Deddf Trwyddedu 2003

## Datganiad o'r Polisi Trwyddedu ar gyfer 2019-2024 a chynnig i adnewyddu Asesiad Effaith Gronnol Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

## Dogfen Ymgynghori

**Dyddiad cyhoeddi**: **Camau gofynnol:** Atebion erbyn **8 Medi 2019**

**Ffôn**: (01656) 643664

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Y we:** www.bridgend.gov.uk

## Cynnwys

Trosolwg...................... ........................................................................................ 3
Sut i ymateb........................................................................................................ 3
Diogelu data ........................................................................................................ 3
Dogfennau cysylltiedig......................................................................................... 4
Y sefyllfa bresennol ............................................................................................. 4
Asesiad Effaith Cydraddoldeb ............................................................................. 4
Ymgynghoriad ...................................................................................................... 4
Dyddiad ............................................................................................................... 4
Ffurflen ateb ........................................................................................................ 5

## Trosolwg

Dan Ddeddf Trwyddedu 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor fel awdurdod trwyddedu gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu sy'n egluro, ymhlith materion eraill, ei bolisi ynghylch caniatáu ceisiadau am drwyddedau safleoedd newydd. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r datganiad hwn bob 5 mlynedd o leiaf. Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw bod yn sail i'r polisi am y cyfnod nesaf o bum mlynedd, 2019 to 2024.

Mae gan y Cyngor hefyd y grym i gyhoeddi asesiad effaith gronnol (AEG) bob tair blynedd. Bydd yr AEG yn gymorth i'r Cyngor gyfyngu ar y nifer neu'r mathau o geisiadau trwyddedu a ganiateir mewn mannau lle ceir tystiolaeth i ddangos bod nifer neu drwch y safleoedd trwyddedig yn cael effaith negyddol ar ardal neilltuol. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ynghylch AEG y tair blynedd nesaf a'r datganiad polisi diwygiedig ac mae'n croesawu sylwadau gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb.

## Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 17 Mehefin 2019 ac yn dod i ben ar 8 Medi 2019.

Cewch ateb neu ofyn rhagor o gwestiynau yn y ffyrdd canlynol;

**Ffôn:** (01656) 643 664.

**E-bost:**
Consultation@Bridgend.gov.uk

**Ar-lein:**
www.bridgend.gov.uk/consultation

**Post:** Ymgynghori ac Ymgysylltu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Mae fformatau gwahanol hefyd ar gael os gofynnir.

## Diogelu data

Defnyddir gwybodaeth a roddir gennych ar y ffurflen hon fel sail i gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu gan gynnwys Asesiad Effaith Gronnol (AEG). Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhagofal rhesymol i sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y rhennir eich gwybodaeth gyda'r tîm Trwyddedu i ddibenion adolygu Datganiad Polisi Deddf Trwyddedu 2003. Cedwir eich gwybodaeth yn unol â Pholisi Cadw Data y Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data. Cewch hefyd dynnu eich cydsyniad yn ôl a

gofyn inni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Mae gwybodaeth bellach am hyn ar gael ar ein gwefan neu cewch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os byddwch chi'n anfodlon ar y ffordd yr ydym yn prosesu eich data personol yna bydd gennych y dewis o wneud cwyn i'r Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Dogfennau Cysylltiedig

Ein Datganiad o Bolisi Trwyddedu presennol

**Y dystiolaeth dros Asesiad Effaith Gronnol a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru**

**Ymwelwch â:**
https://www.bridgend.gov.uk/business/licensing/

Y diwygiadau i'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu

1. Dim ac eithrio cyfeiriadau teipograffyddol/diweddaru i ddeddfwriaeth a manylion cyswllt.

2. Newid adran 6 i adlewyrchu adolygiad o'r ASESIAD EFFAITH GRONNOL ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

## Y sefyllfa bresennol

**Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i adolygu canllawiau ei bolisi.**

**Bydd y polisi yn gymorth i ymgeiswyr am drwyddedau a'r cyhoedd i ddeall**

**proffil y Fwrdeistref Sirol a'r broses benderfynu.**

Mae gan y Cyngor y grym i gyhoeddi asesiad effaith gronnol (AEG) bob tair blynedd i'w gynorthwyo i gyfyngu ar y nifer neu'r mathau o geisiadau trwyddedu a ganiateir mewn mannau lle ceir tystiolaeth i ddangos bod nifer neu drwch y safleoedd trwyddedig yn cael effaith negyddol.

Ystyr effaith gronnol yw'r problemau a all godi lle y ceir nifer o safleoedd trwyddedig mewn ardal neilltuol, canol trefi er enghraifft. Efallai y ceir effaith ddifrifol ar drosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus, y rhwydwaith cludiant neu lanhau strydoedd er enghraifft. Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisi o'r math hwn ynghylch canol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r polisi presennol yn ymwneud â Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni i'w chyffordd â Ffordd Merthyr Mawr, ond nid y rhan rhwng Ffordd Merthyr Mawr a'r gyffordd â Heol y Llys, Pen-y-bont ar Ogwr). Mae effaith y polisi'n golygu na chaniateir trwyddedau newydd nac amrywiadau ar gyfer safleoedd neu adeilad clwb oni all yr ymgeisydd ddangos na fydd effaith negyddol yn codi o'r adeilad ar yr amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Niwsans cyhoeddus;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Diogelu plant rhag niwed.

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn amlinellu lle mae'r nifer, math neu drwch o adeiladau trwyddedig yn uchel y gall problemau difrifol o niwsans neu anhrefn godi y tu allan i'r safleoedd hyn. At hynny, gall nifer fawr o adeiladau effeithio ar gludiant cyhoeddus, sbwriel a niwsans cyhoeddus.

Mae Heddlu De Cymru wedi gofyn i'r Cyngor gynnal y polisi arbennig hwn gyda golwg ar ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cynnig hwn. Nid yw Heddlu De Cymru wedi gofyn i'r Cyngor newid y strydoedd y mae'r polisi presennol yn ymwneud â hwy.

Pe câi ei fabwysiadu, mae gan yr AEG y potensial i effeithio ar ganiatáu trwyddedau newydd i dafarnau, tai bwyta, lleoliadau adloniant, canolfannau diwylliannol, clybiau nos, siopau bwyd i fynd allan yn hwyr y nos, ac adeiladau all-drwydded a chlybiau.

Ni fydd yn berthnasol i Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

Mae’r ffurflen isod yn gofyn am eich barn p’un a ddylai’r Cyngor gadw ei bolisi i ddylanwadu ar ganiatáu trwyddedau yn y dyfodol yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Sylwch, os gwelwch yn dda, bod rhaid i’r Cyngor dderbyn tystiolaeth o’r problemau sy’n digwydd. Gallai tystiolaeth gynnwys ystadegau, adroddiadau, holiaduron preswylwyr a thystiolaeth gan Gynghorwyr lleol a Chynghorwyr cymunedol, ystadegau cysylltiedig ag iechyd ac ymgynghoriad lleol.

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

Mae sgrinio cychwynnol wedi ei gwblhau. Nid oes newid i’r polisi, ac felly mae’r sgrinio cychwynnol yn dal yn ddilys.

## Ymgynghoriad

Bydd y Cyngor yn ystyried y wybodaeth a roddir yn ofalus. Caiff yr holl sylwadau a dderbynnir drwy’r ymgynghoriad hwn eu hystyried yn llawn cyn y gwneir cyhoeddiad terfynol. Yr amserlen a ragwelir ar gyfer gweithredu’r weithdrefn a’r cynnig.

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ymateb | 8 Medi 2019 |
| Adroddiad i’r Cabinet ar ganlyniadau’r ymgynghoriad | 22 Hydref 2019 |